

Castell Caerdydd

Cynulleidfa gyda'r Frenhines Fictoria

Lleoliad

Cynhelir eich gweithdy yn Ystafell y Wraig Cadw Tŷ (Ystafell 1) yn y Ganolfan Addysg.

Disgrifiad

Bydd y Frenhines Fictoria yn gwahodd cynulleidfa o blant ysgol i weithdy arbennig yn edrych ar ei bywyd a bywydau'r tlodion yn ystod ei theyrnasiad. Yn ystod y gweithdy, bydd plant yn cael cyfle i ddysgu mwy am oes Fictoria, dysgu am bethau yr oedd y Frenhines yn eu hoffi a ddim yn eu hoffi, trin gwrthrychau o'i bag llaw, a dysgu am ymddygiad a moesau da. Cynhelir y gweithdy gan ddehonglydd mewn gwisg o'r oes, Sylvia Strange, sy'n gweithio fel y Frenhines Fictoria ar hyd a lled Prydain. Fel arfer, bydd yng nghwmni ei gwisgwraig.

Taith Dywys o'r Castell

Mae taith dywys o'r Tŷ yn rhan o bris yr ymweliad. Bydd y daith yn mynd â'r plant i rai o'r ystafelloedd mwyaf godidog sy'n dyddio o'r cyfnod Fictoraidd. Mae'r cynlluniau'n adlewyrchu gweledigaeth y pensaer o sut y byddai tu mewn i Gastell canoloesol wedi edrych.

Hyd

Bydd y gweithdy yn para awr. Bydd taith dywys o'r Castell yn para tua 50 munud.

Canlyniadau Dysgu Allweddol

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd eich disgyblion wedi:

- ◆ Dysgu am sut daeth Fictoria yn frenhines
- ◆ Dysgu sut y mae'n perthyn i'r teulu Brenhinol presennol
- ◆ Dysgu am y Tywysog Albert a phlant y Frenhines Fictoria
- ◆ Dysgu am ddillad o'r oes - beth oedd y cyfoethog a'r tlawd yn eu gwisgo
- ◆ Dysgu am y mathau o fwyd roedd y cyfoethog a'r tlawd yn eu bwyta
- ◆ Dysgu sut yr oedd gwragedd o oes Fictoria yn dysgu ymddygiad da
- ◆ Dysgu am yr eitemau gwahanol y byddai'r Frenhines Fictoria yn eu cario yn eu bag llaw a'u cyferbynnu â'r hyn y mae pobl yn eu cario heddiw
- ◆ Dysgu a gweld gwrthrychau oedd yn boblogaidd ar y pryd ond nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach (e.e. broets gwallt)

Prif Gysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

- ◆ **Cyfnod Sylfaen (Cymru)**
 - Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- ◆ **Cyfnod Allweddol 1 (Lloegr)**
 - Bywydau dynion, gwragedd a phlant arwyddocaol o hanes Prydain a'r byd ehangach (er enghraifft artistiaid, peirianwyr, anturwyr, dyfeiswyr, arloeswyr, rheolwyr, seintiau, gwyddonwyr)
 - Digwyddiadau y tu hwnt i gof byw
- ◆ **Cyfnod Allweddol 2 (Cymru)**
 - Newidiadau i fywydau bob dydd pobl yn yr ardal leol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hanes)
- ◆ **Cyfnod Allweddol 2 (Lloegr)**
 - Astudiaeth o agwedd neu thema yn hanes Prydain sy'n ymestyn gwybodaeth gronolegol y disgyblion y tu hwnt i 1066

Beth Arall sy'n Rhan o'ch Ymweliad

Mae eich ymweliad â'r Castell hefyd yn cynnwys:

- Defnyddio'r Daith Glywedol a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer plant
- Sioe ffilm a mynediad i ardaloedd y Tiroedd gan gynnwys y Gorthwr, y Bylchfuriau a'r Llochesi Rhyfel.
- Ymweliad â Firing Line - Amgueddfa'r Milwr Cymreig (Amgueddfa Filwrol yn y Ganolfan Ddehongli). Noder: Mae Firing Line yn cael ei rheoli yn annibynnol ac nid yw unrhyw weithgareddau a gynigir yno'n rhan o Wasanaeth Addysg Castell Caerdydd. Efallai na fydd yr ymweliadau yn bosibl ar ddiwrnodau penodol, neu efallai y codir tâl ychwanegol

Fel arfer, mae gennym adar ysglyfaethus ar y safle yn ystod yr wythnos ond ni allwn warantu hyn.